

Cofnodion Cyfarfod o GYNGOR SIR CEREDIGION
a gynhaliwyd yn Neuadd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy
fideogynadledda ddydd Iau, 2 Mawrth, 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Steve Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Geraint Hughes, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(10.00am - 12.50pm)

Gweithdrefn

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Ymddiheuriadau

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datgelodd y Cynghorwyr Euros Davies, Gareth Davies, Gwyn Wigley Evans a Gareth Lloyd fuddiant personol yng nghyswllt eitem 5.

3 Materion Personol

- a) Estynnodd y Cynghorydd Ifan Davies ei gydymdeimlad â theulu Mr Dai Lloyd Evans, cyn arweinydd Cyngor Ceredigion a Chynghorydd dros sawl degawd. Bu i'r Cynghorwyr Bryan Davies a Keith Evans hefyd gydymdeimlo â'r teulu gan dalu teyrnged i Mr Dai Lloyd Evans;

Cafwyd munud o dawelwch i gofio amdano.

- b) Diolchodd y Cynghorydd Paul Hinge i Vernon Jones, Clerc ei Gyngor Cymuned lleol a fyddai'n rhoi'r gorau iddi ar ôl rhoi 52 o flynyddoedd o wasanaeth cyhoeddus;
- c) Llongyfarchodd y Cynghorydd Carl Worrall Daphne Muriel Day ar ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed.
- d) Estynnodd y Cynghorydd Keith Evans ei gydymdeimlad â theulu Emlyn Watkin, cyn Bennaeth Cyllid Cyngor Sir Ceredigion;
- e) Llongyfarchodd y Cynghorydd Keith Evans Ella Davies, Llandysul ar ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed.
- f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan gangen Llanbedr Pont Steffan o Ferched y Wawr ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed;
- g) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a'r Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan am sefydlu Gwobr Goffa Hag Harris;
- h) Llongyfarchodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis aelodau Clwb Bowlio Rhydlewys am eu llwyddiant ar gyrraedd brig y gynghrair ac am gynrychioli Ceredigion a Chymru;

- i) Llongyfarchodd y Cynghorydd Rhodri Evans Ann Jones ar gael ei phenodi'n Ddirprwy Raglaw dros Geredigion.
- j) Llongyfarchodd y Cynghorydd Rhodri Evans Sion Davies, disgybl yn Ysgol Henry Richard a fyddai'n cynrychioli Tîm Dartiau Cymru yn Gibraltar;
- k) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Gwyneth Keyworth am ennill gwobr y Perfformiwr Cefnogol Gorau mewn drama theatr yng Ngwobrau WhatsOnStage am ei rôl yn *To Kill a Mockingbird*;
- l) Diolchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies i bob un a gynorthwyodd i sicrhau bod Cystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn llwyddiant ysgubol;
- m) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Beca Williams am ennill gwobr yr Actores Orau yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- n) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Dafydd Williams am ennill gwobr yr Actor Gorau yn y categori dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- o) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Elen Pencwm am ennill gwobr y Cynhyrchydd Gorau yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- p) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Glwb Ffermwyr Ifanc Bro Dderi am eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- q) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Eiliw Dafydd am ennill gwobr y Cynhyrchydd Gorau yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- r) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Betrys Davies am ennill gwobr yr Actores Orau yn y categori dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- s) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Martha Thomas am ennill y drydedd wobwr yng nghategori'r Actores Orau o dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- t) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Ifan Meredith a Gruffydd Davies am ddod yn gydradd drydydd yng nghategori'r Actor Gorau o dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- u) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Lowri Elen am ennill gwobr yr Actores Orau dros 16 oed yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- v) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Gapel Ebenezer, Llanybi am ddathlu 250 o flynyddoedd;
- w) Llongyfarchodd y Cynghorydd Keith Henson Ronald H Thomas am roi 48 o flynyddoedd o wasanaeth i Gyngor Sir Ceredigion a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad;
- x) Estynnodd y Cynghorydd Amanda Edwards ei chydymdeimlad â theulu Margaret Symmonds, a fu'n gweithio ar ran y Cyngor mewn gorsafoedd pleidleisio rhwng 2005 a 2022 ac yn cynorthwyo â'r gwaith canfasio;
- y) Llongyfarchodd y Cynghorydd Gareth Lloyd bob un o'r Clybiau Ffermwyr Ifanc am eu llwyddiant yn y Gystadleuaeth Hanner Awr

Adloniant ac yn arbennig Clwb Ffermwyr Ifanc Pontsian a dymunodd yn dda i'r clwb wrth symud ymlaen i'r rownd nesaf;

- z) Llongyfarchodd y Cyngorydd Gareth Lloyd Sion Wyn Evans ac Endaf Griffiths ar gael eu penodi'n Aelod Hŷn ac Aelod Iau Newydd y Ffermwyr Ifanc yng Ngheredigion a diolchodd i Sioned Davies a Caryl Davies, yr aelodau a fyddai'n rhoi'r gorau i'r rolau hyn, am eu holl waith;
- aa) Llongyfarchodd y Cyngorydd Wyn Evans aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Lledrod am eu hymdrechion, ac yn arbennig Emrys Jones am ennill yr ail wobwr yng nghategori'r actor gorau yng Nghystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- bb) Llongyfarchodd y Cyngorydd Ifan Davies Gylch Meithrin Pontrhydfendigaid ar dderbyn adroddiad rhagorol yn dilyn Arolygiad gan Estyn. Gwahoddwyd y Cylch Meithrin i baratoi astudiaeth achos o arferion gorau fel y gellid ei rhannu â holl gylchoedd y Mudiad Meithrin ledled Cymru.

4 Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023
PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023 yn gywir.

5 Adroddiad ar y cyd gan yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Wasanaethau Ariannol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Gyllideb 2023/24, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys
Cyflwynodd y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, yr adroddiad gan nodi bod y wybodaeth wedi'i hystyried gan y Cabinet a'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Ychwanegodd fod y Cabinet wedi cytuno â'r cynnig a gyflwynwyd gan un o'r Pwyllgorau Craffu i beidio â chodi tâl am barcio yn Nhregaron a Llandysul a bod y cynnig hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cyngorydd Bryan Davies i'r Swyddogion, gan nodi bod y Cabinet wedi gosod her iddynt fantoli'r gyllideb heb effeithio ar swyddi na gwasanaethau ar y rheng flaen, gymaint â sydd bosib. Nododd fod chwyddiant, pwysau o ran costau gan gynnwys ynni, tanwydd, dyfarniadau cyflog a galwadau cynyddol yn y gyllideb Gofal Cymdeithasol, a chostau byw cynyddol wedi golygu diffyg o £22m yn y gyllideb a bod y cynnydd o 8.1% yn Setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 wedi golygu y byddai angen sicrhau £12m o arbedion o ffynonellau incwm. Roedd y Cabinet wedi cynnig cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ac roedd hyn yn cynnwys 6% i ariannu'r cynnydd yn y pwysau a fyddai ar y Cyngor o ran cost, a chynnydd i ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru o'u cyllideb o 13% nad oedd yn agored i drafodaeth, sy'n golygu 1.3% yn ychwanegol ar Dreth y Cyngor.

Dywedodd y Cyngorydd Gareth Davies, yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael nad oeddent yn medru rhoi sicrwydd na fyddai unrhyw swyddi yn cael eu torri, ac y gallai'r ansicrwydd parhaus ynghylch cyflogau effeithio ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor gan fod, o bosib, yn uwch na'r swm a neilltuwyd ar ei gyfer. Diolchodd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am eu trafodaethau agored ac aeddfed a nododd pe byddai'r Aelodau wedi dymuno cynnig atebion gwahanol, y byddent wedi gorfod cyflwyno'r rhain yn ystod y

broses graffu fel y gallai'r Swyddog Adran 151 ystyried costau'r cynigion a rhoi sicrwydd am gadernid unrhyw gynlluniau o'r fath.

Bu i Eifion Evans, y Prif Weithredwr, gydnabod y gwaith cefndir yr oedd pob Swyddog wedi'i wneud i nodi'r arbedion ac i sicrhau bod swyddi a gwasanaethau yn cael eu diogelu gymaint â sydd bosib. Nododd fod y rheoleiddwyr allanol yn cydnabod bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf er gwaethaf yr heriau. Er hynny, rhagwelwyd y byddai cyllideb y flwyddyn ganlynol hyd yn oed yn fwy heriol.

Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ei farn ar y Gyllideb fel y Swyddog Adran 151, a oedd yn cynnwys rhoi diweddariad ar Setliad Terfynol LIC a chyflwyniad diweddar Cynigion Cyflog yn ddiweddar ar gyfer staff cyffredinol ar gyfer 2023/24.

Nododd y Cynghorydd Gareth Lloyd, Arweinydd y Grŵp Annibynnol, fod ardoll yr awdurdod tân wedi bod yn isel iawn yn hanesyddol, ac mai dim ond un Orsaf Dân gyda chriw llawn amser oedd yn bodoli ar draws Ceredigion a Phowys. Roedd hyn wedi cael effaith ar y staffio ac roedd yr Awdurdod Tân yn ceisio denu pobl newydd drwy adolygu contractau cyflogaeth, a dyna yn rhannol oedd y rheswm dros y cynnydd sylweddol yn yr Ardoll. Diolchodd i bawb am eu gwaith a diolchodd i'r Cabinet am wrando ar argymhellion y Pwyllgorau Craffu. O ran pennu cyllideb y flwyddyn nesaf, nododd y byddai angen i'r Cyngor ddechrau ar y gwaith yn syth drwy adolygu ffynonellau incwm megis talu am barcio a rhenti, yn ogystal ag arbedion o ran staff asiantaeth a phrynu offer yn hytrach na'i logi.

Diolchodd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, i'r Swyddogion am gynnwys Arweinwyr y Grwpiau yn gynnar ac am wrando ar eu cynigion. Nododd fod y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn ddigynsail ond y byddai'r trigolion yn anfodlon iawn gweld unrhyw ostyngiad posibl mewn gwasanaethau. Ar y llaw arall, dywedodd fod pryder y gallai cynnydd arall yng nghostau aelwydydd y sir wthio hyd yn oed fwy o bobl i galedi. Nododd fod morâl hefyd yn isel iawn ymhlith yr Aelodau. Fodd bynnag, dywedodd y byddai unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor a oedd o dan 7.3% yn arwain at ostyngiad pellach mewn gwasanaethau. Ychwanegodd na allai wrthwynebu'r cynnydd am nad oedd fel arweinydd un o'r Gwrthbleidiau wedi medru awgrymu unrhyw opsiynau eraill i leddfu'r sefyllfa. Fel enghraifft, mae'r gwahaniaeth lefel Treth y Cyngor rhwng 6.0% a 7.3% yn 37c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.

Cynigiodd y Cynghorydd Gareth Lloyd y dylai'r bleidlais ar gyfer Argymhellion 1 – 5 fod yn Bleidlais Gofrestredig. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gareth Davies. Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol.

Cafwyd pleidlais gofrestredig ynghylch argymhellion 1 i 5 yn yr adroddiad, yn unol â'r hyn a gytunwyd iddo ac yn unol â Rheol 14.5, Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

O blaid: Y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies,

Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Geraint Hughes, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Mark Strong, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall (37).

Yn erbyn: Neb (0)

Ymatal: Neb (0)

Ni wnaeth y Cyngorydd Steve Davies bleidleisio.

Yn dilyn pleidlais gofrestredig, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151):
 - bod amcangyfrifon Cyllideb 2023/24 wedi'u paratoi mewn modd cadarn, a
 - bod lefel arfaethedig y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a'r Balansau Cyffredinol yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.
2. Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24 o £180.101m, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.
3. Cymeradwyo Cyllidebau 2022/23 a Chyllidebau 2023/24, y cyllidebau manwl a ddiweddarwyd, fel yr amlinellir yn Atodiad 2.
4. Pennu Treth y Cyngor Band D o £1,553.60 ar gyfer 2023/24 at ddibenion Cyngor Sir Ceredigion, sef cynnydd o £105.70 neu 7.3%.
5. Nodi bod y cynnydd o 7.3% ym Mand D Treth y Cyngor yn cynrychioli cynnydd o 6.0% ar gyfer Gwasanaethau craidd y Cyngor ac 1.3% pellach er mwyn ariannu cynnydd yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2023/24.

Yn dilyn pleidlais arall, **PENDERFYNWYD** hefyd:

6. Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf, fel yr amlinellir yn Atodiad 3.
7. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 4.
8. Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus, fel yr amlinellir yn Atodiad 5.
9. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael i weithredu symudiad o fewn cyfanswm y terfyn Awdurdodedig ar gyfer benthyca allanol, a'r ffin Weithredol.

6 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24

Cyflwynodd y Cyngorydd Gareth Davies, yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael adroddiad i'r Cyngor ynglŷn â Phennu Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24. Nododd mai adroddiad technegol oedd hwn a bod gofyniad statudol i bleidleisio ar y mater hwn. Serch hynny, nid oedd hyn yn ailagor y drafodaeth a gafwyd ar yr eitem a gytunwyd iddi yn flaenorol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol:

(a) I nodi y cymeradwywyd y symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yng nghyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 yn unol â rheoliadau Adran 33(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

(b) 32,767.99 sef y swm a gyfrifir gan y Cyngor fel sylfaen treth y Cyngor ar gyfer yr ardal, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) a Threth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004.

(c) RHAN O ARDAL Y CYNGOR

Ardaloedd Cyngor	Tref a Chymuned:	Sylfaen Treth y Cyngor	Ardaloedd Cyngor	Tref a Chymuned:	Sylfaen Treth y Cyngor
ABERYSTWYTH		4,078.02	TREGARON		540.26
ABERAERON		760.58	YSBYTY YSTWYTH		207.94
ABERTEIFI / CARDIGAN		1,850.53	YSTRAD FFLUR		312.91
LLANBEDR P.S. / LAMPETER		1,004.15	YSTRAD MEURIG		168.04
CEI NEWYDD / NEW QUAY		726.00	CILIAU AERON		427.90
BORTH		744.47	HENFYNYW		517.31
CEULANAMAESMAWR		429.83	LLANARTH		750.23
BLAENRHEIDOL		202.85	LLANDYSILOGOGO		547.81
GENEU'R GLYN		357.37	LLANFAIR CLYDOGGAU		308.76
LLANBADARN FAWR		895.70	LLANFIHANGEL YSTRAD		663.86
LLANGYNFELIN		270.19	LLANGYBI		283.50
LLANFARIAN		759.01	LLANLLWCHAEARN		492.89
LLANGWYRYFON		251.05	LLANSANTFFRAED		617.81
LLANILAR		481.58	LLANWENOG		585.35
LLANRHYSTUD		451.68	LLANWNNEN		213.69
MELINDWR		520.75	DYFFRYN ARTH		575.32
PONTARFYNACH		243.53	ABERPORTH		1,128.88
TIRYMYNACH		798.36	BEULAH		870.46
TRAWSGOED		447.89	LLANDYFRIOG		831.23
TREFEURIG		786.69	LLANDYSUL		1,262.45
FAENOR		818.47	LLANGOEDMOR		593.30
YSGUBOR-Y-COED		163.41	LLANGRANNOG		428.33
LLANDDEWI BREFI		308.09	PENBRYN		735.39
LLANGEITHO		371.44	TROEDYRAUR		663.13
LLEDROD		309.53	Y FERWIG		631.71
NANTCWNLLE		378.36			

SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 32,767.99

sef y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol â Rheoliad 6 o Reoliadau 1995 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2004), fel symiau Treth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau

mewn rhannau penodol o'r ardal y mae un eitem neu fwy yn berthnasol iddynt;

3.2 I cymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn unol ag adrannau 32 hyd 36, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y nodir isod:-

- (a) £269,760,426 sef cyfanswm y symiau a amcangyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) hyd (e) o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys £190,000 o ran Rhyddhad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol.**
- (b) £88,284,000 sef cyfanswm y symiau a amcangyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) hyd (c) o'r Ddeddf.**
- (c) £181,476,426 sef swm y diffyg rhwng cyfanswm (a) uchod a chyfanswm (b) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor fel yr anghenion cyllidebol am y flwyddyn, yn unol ag Adran 32(4) o'r ddeddf.**
- (d) £129,192,414 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn daladwy i Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn ar gyfer ailddosbarthu ardrethi annomestig, y grant cymorth refeniw a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.**
- (e) £1,595.58 sef y swm a roddir o dan (c) uchod, namyn y swm a roddir o dan (d) uchod, wedi'i rannu â Sylfaen Treth y Cyngor, a gyfrifir gan y Cyngor fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf.**
- (f) £1,375,663 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.**
- (g) £1,553.60 sef y cyfanswm a roddir o dan (e) uchod, namyn y swm a geir wrth rannu'r swm a roddir o dan (f) uchod â'r Sylfaen Treth y Cyngor a gyfrifwyd gan y Cyngor fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn, yn unol ag Adran 34(2) o'r Ddeddf.**
- (h) RHAN O ARDAL Y CYNGOR**

Ardaloedd Cyngorau Tref a Chymuned:	Sylfaen Treth y Cyngor	Ardaloedd Cyngorau Tref a Chymuned:	Sylfaen Treth y Cyngor
ABERYSTWYTH	1,695.58	TREGARON	1,594.32
ABERAERON	1,609.60	YSBYTY YSTWYTH	1,568.03
ABERTEIFI / CARDIGAN	1,599.93	YSTRAD FFLUR	1,576.65
LLANBEDR P.S. / LAMPETER	1,592.44	YSTRAD MEURIG	1,566.60
CEI NEWYDD / NEW QUAY	1,576.85	CILIAU AERON	1,567.62
BORTH	1,585.12	HENFYNYW	1,567.13

CEULANAMAESMAWR	1,590.82	LLANARTH	1,566.24
BLAENRHEIDOL	1,575.91	LLANDYSILOGOGO	1,572.34
GENEU'R GLYN	1,580.18	LLANFAIR CLYDOGAU	1,564.94
LLANBADARN FAWR	1,601.92	LLANFIHANGEL YSTRAD	1,568.59
LLANGYNFELIN	1,579.51	LLANGYBI	1,567.71
LLANFARIAN	1,572.97	LLANLLWCHAEARN	1,576.61
LLANGWYRYFON	1,568.21	LLANSANTFFRAED	1,592.45
LLANILAR	1,568.14	LLANWENOG	1,579.23
LLANRHYSTUD	1,572.64	LLANWNNEN	1,569.82
MELINDWR	1,567.04	DYFFRYN ARTH	1,579.19
PONTARFYNACH	1,567.97	ABERPORTH	1,590.01
TIRYMYNACH	1,578.03	BEULAH	1,582.32
TRAWSGOED	1,565.21	LLANDYFRIOG	1,571.65
TREFEURIG	1,570.12	LLANDYSUL	1,591.43
FAENOR	1,594.44	LLANGOEDMOR	1,604.16
YSGUBOR-Y-COED	1,575.02	LLANGRANNOG	1,578.11
LLANDDEWI BREFI	1,584.44	PENBRYN	1,569.92
LLANGEITHO	1,568.41	TROEDYRAUR	1,570.19
LLEDROD	1,561.10	Y FERWIG	1,592.54
NANTCWNILLE	1,559.41		

sef y symiau sy'n ganlyniad o ychwanegu swm yr eitem neu eitemau arbennig a wnelo ag anheddau yn y rhannau penodol o ardal y Cyngor y cyfeirir atynt uchod at y swm a roddir o dan 3.2(g) uchod, wedi rhannu yn y ddau achos â'r swm a roddir o dan 3.1(b) uchod, a amcangyfrifwyd gan y Cyngor fel symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer anheddau mewn rhannau penodol o'r ardal y mae un eitem arbennig neu fwy yn berthnasol iddynt, yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf.

(i) RHAN O ARDAL Y CYNGOR

ARDALOEDD	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band
CYNGHORAU	A	B	C	D	E	F	G	H	I
TREF A CHYMUNED:	£	£	£	£	£	£	£	£	£
ABERYSTWYTH	1130.38	1318.79	1507.18	1695.58	2072.37	2449.17	2825.96	3391.16	3956.36
ABERAERON	1073.06	1251.92	1430.76	1609.60	1967.28	2324.98	2682.66	3219.20	3755.74
ABERTEIFI /									
CARDIGAN	1066.62	1244.39	1422.16	1599.93	1955.47	2311.01	2666.55	3199.86	3733.17
LLANBEDR P.S. /									
LAMPETER	1061.62	1238.57	1415.50	1592.44	1946.31	2300.19	2654.06	3184.88	3715.70
CEI NEWYDD / NEW									
QUAY	1051.23	1226.44	1401.65	1576.85	1927.26	2277.67	2628.08	3153.70	3679.32
BORTH	1056.74	1232.88	1409.00	1585.12	1937.36	2289.62	2641.86	3170.24	3698.62
CEULANAMAESMAWR	1060.54	1237.31	1414.06	1590.82	1944.33	2297.85	2651.36	3181.64	3711.92
BLAENRHEIDOL	1050.60	1225.71	1400.81	1575.91	1926.11	2276.32	2626.51	3151.82	3677.13
GENEU'R GLYN	1053.45	1229.03	1404.61	1580.18	1931.33	2282.48	2633.63	3160.36	3687.09
LLANBADARN FAWR	1067.94	1245.94	1423.93	1601.92	1957.90	2313.89	2669.86	3203.84	3737.82
LLANGYNFELIN	1053.00	1228.51	1404.01	1579.51	1930.51	2281.52	2632.51	3159.02	3685.53
LLANFARIAN	1048.64	1223.43	1398.20	1572.97	1922.51	2272.07	2621.61	3145.94	3670.27

LLANGWYRYFON	1045.47	1219.72	1393.97	1568.21	1916.70	2265.19	2613.68	3136.42	3659.16
LLANILAR	1045.42	1219.67	1393.90	1568.14	1916.61	2265.09	2613.56	3136.28	3659.00
LLANRHYSTUD	1048.42	1223.17	1397.90	1572.64	1922.11	2271.59	2621.06	3145.28	3669.50
MELINDWR	1044.69	1218.81	1392.93	1567.04	1915.27	2263.50	2611.73	3134.08	3656.43
PONTARFYNACH	1045.31	1219.54	1393.75	1567.97	1916.40	2264.85	2613.28	3135.94	3658.60
TIRYMYNACH	1052.02	1227.36	1402.70	1578.03	1928.70	2279.38	2630.05	3156.06	3682.07
TRAWSGOED	1043.47	1217.39	1391.30	1565.21	1913.03	2260.86	2608.68	3130.42	3652.16
TREFEURIG	1046.74	1221.21	1395.66	1570.12	1919.03	2267.95	2616.86	3140.24	3663.62
FAENOR	1062.96	1240.12	1417.28	1594.44	1948.76	2303.08	2657.40	3188.88	3720.36
YSGUBOR-Y-COED	1050.01	1225.02	1400.02	1575.02	1925.02	2275.03	2625.03	3150.04	3675.05
LLANDDEWI BREFI	1056.29	1232.35	1408.39	1584.44	1936.53	2288.64	2640.73	3168.88	3697.03
LLANGEITHO	1045.60	1219.88	1394.14	1568.41	1916.94	2265.48	2614.01	3136.82	3659.63
LLEDROD	1040.73	1214.19	1387.65	1561.10	1908.01	2254.92	2601.83	3122.20	3642.57
NANTCWNLLE	1039.60	1212.88	1386.14	1559.41	1905.94	2252.48	2599.01	3118.82	3638.63
TREGARON	1062.88	1240.03	1417.18	1594.32	1948.61	2302.91	2657.20	3188.64	3720.08
YSBYTY YSTWYTH	1045.35	1219.58	1393.81	1568.03	1916.48	2264.93	2613.38	3136.06	3658.74
YSTRAD FFLUR	1051.10	1226.29	1401.47	1576.65	1927.01	2277.38	2627.75	3153.30	3678.85
YSTRAD MEURIG	1044.40	1218.47	1392.54	1566.60	1914.73	2262.87	2611.00	3133.20	3655.40
CILIAU AERON	1045.08	1219.26	1393.44	1567.62	1915.98	2264.34	2612.70	3135.24	3657.78
HENFYNYW	1044.75	1218.88	1393.01	1567.13	1915.38	2263.63	2611.88	3134.26	3656.64
LLANARTH	1044.16	1218.19	1392.22	1566.24	1914.29	2262.35	2610.40	3132.48	3654.56
LLANDYSILIOGOGO	1048.22	1222.94	1397.64	1572.34	1921.74	2271.16	2620.56	3144.68	3668.80
LLANFAIR CLYDOGAU	1043.29	1217.18	1391.06	1564.94	1912.70	2260.47	2608.23	3129.88	3651.53
LLANFIHANGEL									
YSTRAD	1045.72	1220.02	1394.30	1568.59	1917.16	2265.74	2614.31	3137.18	3660.05
LLANGYBI	1045.14	1219.33	1393.52	1567.71	1916.09	2264.47	2612.85	3135.42	3657.99
LLANLLWCHAEARN	1051.07	1226.26	1401.43	1576.61	1926.96	2277.33	2627.68	3153.22	3678.76
LLANSANTFFRAED	1061.63	1238.58	1415.51	1592.45	1946.32	2300.21	2654.08	3184.90	3715.72
LLANWENOG	1052.82	1228.29	1403.76	1579.23	1930.17	2281.11	2632.05	3158.46	3684.87
LLANWNNEN	1046.54	1220.98	1395.40	1569.82	1918.66	2267.52	2616.36	3139.64	3662.92
DYFFRYN ARTH	1052.79	1228.26	1403.73	1579.19	1930.12	2281.05	2631.98	3158.38	3684.78
ABERPORTH	1060.00	1236.68	1413.34	1590.01	1943.34	2296.68	2650.01	3180.02	3710.03
BEULAH	1054.88	1230.70	1406.51	1582.32	1933.94	2285.57	2637.20	3164.64	3692.08
LLANDYFRIOG	1047.76	1222.40	1397.02	1571.65	1920.90	2270.16	2619.41	3143.30	3667.19
LLANDYSUL	1060.95	1237.78	1414.61	1591.43	1945.08	2298.73	2652.38	3182.86	3713.34
LLANGOEDMOR	1069.44	1247.68	1425.92	1604.16	1960.64	2317.12	2673.60	3208.32	3743.04
LLANGRANNOG	1052.07	1227.42	1402.77	1578.11	1928.80	2279.49	2630.18	3156.22	3682.26

PENBRYN	1046.61	1221.05	1395.49	1569.92	1918.79	2267.66	2616.53	3139.84	3663.15
TROEDYRAUR	1046.79	1221.26	1395.73	1570.19	1919.12	2268.05	2616.98	3140.38	3663.78
Y FERWIG	1061.69	1238.65	1415.59	1592.54	1946.43	2300.34	2654.23	3185.08	3715.93

sef y symiau sy'n ganlyniad o luosi'r symiau a roddir o dan 3.2(h) gyda'r rhif sydd, yn ôl y gyfran a bennir yn Adran 5(1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisio penodol wedi rhannu gyda'r rhif sydd, yn ôl y gyfran honno, yn berthnasol i anheddau a restrir ym mand prisio D gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, sef y symiau a gaiff eu hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau o anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisio.

3.3 I nodi'r symiau yn y praeseptau a gyflwynwyd i'r Cyngor gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys ar gyfer 2023/24 yn unol ag Adran 47 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, ar gyfer pob categori o anheddiad a ddengys isod:-

Treth Gyngor Heddlu Dyfed-Powys

BANDIAU PRISIO

A	B	C	D	E	F	G	H	I
£	£	£	£	£	£	£	£	£
208.4	243.1	277.9	312.6	382.1	451.6	521.0	625.3	729.5
3	7	1	5	3	1	8	0	2

3.4 I pennu Treth y Cyngor yn unol ag Adran 30 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ymhob achos ar gyfer y symiau a roddir o dan 3.2(i) a 3.3 uchod, mae'r Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau, sydd i'w gweld yn Atodiad A, fel symiau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 ar gyfer pob categori anheddiad.

ARDALOEDD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED	Band A £	Band B £	Band C £	Band D £	Band E £	Band F £	Band G £	Band H £	Band I £
ABERYSTWYTH	1338.82	1561.96	1785.09	2008.23	2454.50	2900.77	3347.05	4016.46	4685.87
ABERAERON	1281.50	1495.09	1708.67	1922.25	2349.41	2776.58	3203.75	3844.50	4485.25
ABERTEIFI	/								
CARDIGAN	1275.06	1487.56	1700.07	1912.58	2337.60	2762.61	3187.64	3825.16	4462.68
LLANBEDR P.S. / LAMPETER	1270.06	1481.74	1693.41	1905.09	2328.44	2751.79	3175.15	3810.18	4445.21
CEI NEWYDD / NEW QUAY	1259.67	1469.61	1679.56	1889.50	2309.39	2729.27	3149.17	3779.00	4408.83
BORTH	1265.18	1476.05	1686.91	1897.77	2319.49	2741.22	3162.95	3795.54	4428.13
CEULANAMAESMAWR	1268.98	1480.48	1691.97	1903.47	2326.46	2749.45	3172.45	3806.94	4441.43
BLAENRHEIDOL	1259.04	1468.88	1678.72	1888.56	2308.24	2727.92	3147.60	3777.12	4406.64
GENEU'R GLYN	1261.89	1472.20	1682.52	1892.83	2313.46	2734.08	3154.72	3785.66	4416.60
LLANBADARN FAWR	1276.38	1489.11	1701.84	1914.57	2340.03	2765.49	3190.95	3829.14	4467.33

LLANGYNFELIN	1261.44	1471.68	1681.92	1892.16	2312.64	2733.12	3153.60	3784.32	4415.04
LLANFARIAN	1257.08	1466.60	1676.11	1885.62	2304.64	2723.67	3142.70	3771.24	4399.78
LLANGWYRYFON	1253.91	1462.89	1671.88	1880.86	2298.83	2716.79	3134.77	3761.72	4388.67
LLANILAR	1253.86	1462.84	1671.81	1880.79	2298.74	2716.69	3134.65	3761.58	4388.51
LLANRHYSTUD	1256.86	1466.34	1675.81	1885.29	2304.24	2723.19	3142.15	3770.58	4399.01
MELINDWR	1253.13	1461.98	1670.84	1879.69	2297.40	2715.10	3132.82	3759.38	4385.94
PONTARFYNACH	1253.75	1462.71	1671.66	1880.62	2298.53	2716.45	3134.37	3761.24	4388.11
TIRYMYNACH	1260.46	1470.53	1680.61	1890.68	2310.83	2730.98	3151.14	3781.36	4411.58
TRAWSGOED	1251.91	1460.56	1669.21	1877.86	2295.16	2712.46	3129.77	3755.72	4381.67
TREFEURIG	1255.18	1464.38	1673.57	1882.77	2301.16	2719.55	3137.95	3765.54	4393.13
FAENOR	1271.40	1483.29	1695.19	1907.09	2330.89	2754.68	3178.49	3814.18	4449.87
YSGUBOR-Y-COED	1258.45	1468.19	1677.93	1887.67	2307.15	2726.63	3146.12	3775.34	4404.56
LLANDDEWI BREFI	1264.73	1475.52	1686.30	1897.09	2318.66	2740.24	3161.82	3794.18	4426.54
LLANGEITHO	1254.04	1463.05	1672.05	1881.06	2299.07	2717.08	3135.10	3762.12	4389.14
LLEDROD	1249.17	1457.36	1665.56	1873.75	2290.14	2706.52	3122.92	3747.50	4372.08
NANTCWNLLE	1248.04	1456.05	1664.05	1872.06	2288.07	2704.08	3120.10	3744.12	4368.14
TREGARON	1271.32	1483.20	1695.09	1906.97	2330.74	2754.51	3178.29	3813.94	4449.59
YSBYTY YSTWYTH	1253.79	1462.75	1671.72	1880.68	2298.61	2716.53	3134.47	3761.36	4388.25
YSTRAD FFLUR	1259.54	1469.46	1679.38	1889.30	2309.14	2728.98	3148.84	3778.60	4408.36
YSTRAD MEURIG	1252.84	1461.64	1670.45	1879.25	2296.86	2714.47	3132.09	3758.50	4384.91
CILIAU AERON	1253.52	1462.43	1671.35	1880.27	2298.11	2715.94	3133.79	3760.54	4387.29
HENFYNYW	1253.19	1462.05	1670.92	1879.78	2297.51	2715.23	3132.97	3759.56	4386.15
LLANARTH	1252.60	1461.36	1670.13	1878.89	2296.42	2713.95	3131.49	3757.78	4384.07
LLANDYSILIOGOGO	1256.66	1466.11	1675.55	1884.99	2303.87	2722.76	3141.65	3769.98	4398.31
LLANFAIR CLYDOGAU LLANFIHANGEL YSTRAD	1251.73	1460.35	1668.97	1877.59	2294.83	2712.07	3129.32	3755.18	4381.04
LLANGYBI	1253.58	1462.50	1671.43	1880.36	2298.22	2716.07	3133.94	3760.72	4387.50
LLANLLWCHAEARN	1259.51	1469.43	1679.34	1889.26	2309.09	2728.93	3148.77	3778.52	4408.27
LLANSANTFFRAED	1270.07	1481.75	1693.42	1905.10	2328.45	2751.81	3175.17	3810.20	4445.23
LLANWENOG	1261.26	1471.46	1681.67	1891.88	2312.30	2732.71	3153.14	3783.76	4414.38
LLANWNNEN	1254.98	1464.15	1673.31	1882.47	2300.79	2719.12	3137.45	3764.94	4392.43
DYFFRYN ARTH	1261.23	1471.43	1681.64	1891.84	2312.25	2732.65	3153.07	3783.68	4414.29
ABERPORTH	1268.44	1479.85	1691.25	1902.66	2325.47	2748.28	3171.10	3805.32	4439.54
BEULAH	1263.32	1473.87	1684.42	1894.97	2316.07	2737.17	3158.29	3789.94	4421.59
LLANDYFRIOG	1256.20	1465.57	1674.93	1884.30	2303.03	2721.76	3140.50	3768.60	4396.70
LLANDYSUL	1269.39	1480.95	1692.52	1904.08	2327.21	2750.33	3173.47	3808.16	4442.85
LLANGOEDMOR	1277.88	1490.85	1703.83	1916.81	2342.77	2768.72	3194.69	3833.62	4472.55
LLANGRANNOG	1260.51	1470.59	1680.68	1890.76	2310.93	2731.09	3151.27	3781.52	4411.77
PENBRYN	1255.05	1464.22	1673.40	1882.57	2300.92	2719.26	3137.62	3765.14	4392.66
TROEDYRAUR	1255.23	1464.43	1673.64	1882.84	2301.25	2719.65	3138.07	3765.68	4393.29
Y FERWIG	1270.13	1481.82	1693.50	1905.19	2328.56	2751.94	3175.32	3810.38	4445.44

- 7 **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) 2023/24**
Cyflwynodd y Cyngorydd Gareth Davies, yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y Cabinet wedi penderfynu yn ystod ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2023 i gymeradwyo Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) ar gyfer 2023/24. Nodwyd y byddai unrhyw benderfyniad ynghylch dirprwyo dyletswyddau o dan adran 4 yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet, pe byddai unrhyw faterion yn codi.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD:**

- a) nodi'r adroddiad (eitemau 2(i) i 2(iv)) a chymeradwyo argymhelliad y Cabinet;
- b) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthycia a Buddsoddi 2023/24; a
- c) cymeradwyo Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24.

- 8 **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar gyflwyno Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad - Recriwtio Prif Swyddogion**

Cyflwynodd y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi yn dilyn ymgyrch recriwtio yn ddiweddar fod rôl y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal, a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau'n wag. Dywedodd fod uchafswm cyflog y rôl ar hyn o bryd lawer yn is na'r rolau cyfatebol mewn awdurdodau cyfagos ac mewn awdurdodau sydd â phoblogaeth debyg i Geredigion.

Cynigiwyd felly fod Taliad Atodol ar sail Grymoedd y Farchnad o hyd at £10,385 yn cael ei gyflwyno i gynyddu'r cyflog a hysbysebiri a fyddai'n arwain at uchafswm cyflog a thaliad atodol a hysbysebiri o £97,500, gan barhau mewn grym tra bo cyfradd y farchnad yn parhau i fod yn uwch na lefel y cyflog a werthuswyd ar gyfer y swydd.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r cynnydd arfaethedig yn ddigonol, gan nodi na fyddai'n gynaliadwy dibynnu ar staff asiantaeth.

Dywedodd Eifion Evans fod y cyflogau yng Ngheredigion wedi bod ar eu hôl hi o gymharu â dyletswyddau a chyfrifoldebau tebyg mewn awdurdodau cyfagos. Serch hynny, byddai'r cyflog uwch yn arwain at lai o wahaniaeth rhwng cyflogau'r rolau a oedd yn uwch i fyny'r strwythur cyflogau. Roedd angen i'r Cyngor ystyried yr hyn a fyddai'n fforddiadwy a phe byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno y tu hwnt i'r hyn a oedd yn cael ei gynnig, roedd yn bosib y byddai angen i'r Cyngor ystyried adolygiad cyffredinol o strwythur cyflogau'r Cyngor.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cyflwyno taliad atodol ar sail grymoedd y farchnad ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Statudol y

Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal.

9 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu ar apwyntio dau Ymddiriedolwr i elusen Gwobrau Evan Morgan

Rhoddodd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd amlinelliad o Gynllun y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â'r elusen a adwaenir fel Gwobrau Evan Morgan gan nodi bod angen tri ymddiriedolwr o dan y Cynllun.

Yr ymddiriedolwr cyntaf a gaiff ei enwi yn y Cynllun yw Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir Dyfed. Erbyn heddiw mae swyddogaethau statudol Cyfarwyddwr Addysg Dyfed yn cael eu cyflawni gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Ysgolion yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Addysg. Y Cyngor fel yr Awdurdod Addysg Lleol fydd yn enwebu'r ddau ymddiriedolwr arall. Gall yr ymddiriedolwyr hyn fod yn Aelodau o'r Cyngor ond nid oes yn rhaid iddynt fod.

Er mwyn adfywio'r cynllun elusennol ac er mwyn bod mewn sefyllfa i ddyfarnu gwobrau newydd, cynigir bod y Cyngor yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion fel y ddau ymddiriedolwr arall.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu Cyngor Sir Ceredigion fel y ddau ymddiriedolwr a enwebir i'r elusen a adwaenir fel Gwobrau Evan Morgan.

10 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd ar Adolygiad o Gymunedau a Threfniadau Etholiadol

Cyflwynodd Eifion Evans, y Prif Weithredwr, adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod gofyniad statudol ar y Swyddog Etholiadol i adolygu ffiniau yn rheolaidd a bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi'i benodi i gynnal adolygiad o gymunedau a threfniadau etholiadol ar ran Cyngor Sir Ceredigion.

Fel rhan o'r adolygiad, byddai'r Comisiwn yn rhoi sylw i'r canlynol:

- creu, diddymu neu uno cymunedau a wardiau cymunedol
- enw'r gymuned, a lle mae'n cynnwys wardiau, enw wardiau cymunedol
- lle mae newidiadau wedi'u gwneud i ffiniau cymunedau neu wardiau cymunedol, nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r gymuned a, lle mae'n cynnwys wardiau, nifer y cynghorwyr fesul ward.

Fel rhan o'r broses adolygu, byddai gofyn i'r Cyngor sefydlu grŵp trawsbleidiol o Gynghorwyr i gefnogi'r adolygiad i benderfynu ar Bolisi Maint y Cyngor (a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor cyn dechrau'r cyfarfod ymgynghori cyntaf gyda chynghorau Tref a Chymuned) ac i fod yn brif grŵp ar gyfer yr awdurdod lleol. Argymhellwyd bod gan y Grŵp Trawsbleidiol 7

Aelod ac roedd Arweinwyr y Grwpiau wedi enwebu Aelodau ar gyfer y grŵp hwn.

Dyweddodd y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, fod rhai Cyngorau Tref a Chymuned yn wynebu heriau o ran denu unigolion i sefyll fel Aelodau. Soniodd hefyd am y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu Pwyllgorau.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD**:

- a) nodi bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi'i gomisiynu i gynnal Adolygiad y Cymunedau ar ran y Cyngor;
- b) cymeradwyo mai 7 fyddai nifer yr Aelodau ar Grŵp Trawsbleidiol yr Adolygiad o Gymunedau a'r Adolygiad Etholiadol;
- c) cadarnhau aelodaeth Grŵp Trawsbleidiol yr Adolygiad o Gymunedau a'r Adolygiad Etholiadol fel a ganlyn:
 - Clive Davies
 - Elizabeth Evans
 - Eryl Evans
 - Gwyn Wigley Evans
 - Rhodri Evans
 - Paul Hinge
 - Alun Williams.

11 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Y Gyfraith a Llywodraethu ar apwyntio Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyflwynodd y Cyngorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi yn dilyn ymddiswyddiad Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fod Mr Andrew Blackmore wedi'i benodi a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2022.

Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023, ystyriwyd y trefniadau ar gyfer Is-gadeirydd, a chytunwyd i benodi Mr Andrew Blackmore fel Is-gadeirydd ar unwaith o 17 Ionawr 2023 ymlaen am weddill y cyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Mai 2024.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cadarnhau penodiad Andrew Blackmore fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd at fis Mai 2024.

12 Aelodaeth y Grŵp Datblygu

Plaid Cymru	3	Y Cyngorydd Bryan Davies Y Cyngorydd Clive Davies Y Cyngorydd Alun Williams
-------------	---	---

Aelodau Annibynnol (Cadeirydd / Is-gadeirydd y	1	Y Cyngorydd Rhodri Evans
---	---	--------------------------

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Adnoddau Corfforaethol*)

Y Democratiaid Rhyddfrydol 1 Y Cyngorydd Geraint Hughes
(Cadeirydd / Is-gadeirydd y
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Adnoddau Corfforaethol*)

*Ar gyfer tymor y swydd, byddai'r Grŵp Annibynnol a'r Democratiaid
Rhyddfrydol yn rhannu rolau'r Cadeirydd/Is-gadeirydd – gan gyfnewid bob
dwy flynedd.

13 Cynrychiolydd cyflogwr i Gronfa Pensiwn Dyfed

Cyflwynodd y Cyngorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod
Cabinet dros y Gwasanaethau Democratiaidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a
Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod y Cyngorydd Gareth
Lloyd wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r rôl hon.

Enwebodd y Cyngorydd Bryan Davies y Cyngorydd Wyn Thomas fel
Cynrychiolydd Cyflogwr i Gronfa Pensiwn Dyfed.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** penodi'r Cyngorydd Wyn Thomas fel
Cynrychiolydd Cyflogwr i Gynllun Pensiwn Dyfed.

**14 Aelodau o'r Cyngor i Bwyllgorau'r cyngor ar gyfer y Flwyddyn
Fwrdeisdrefol ddilynol**

PENDERFYNWYD cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor fel y'i
cyflwynwyd gerbron y cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 20
Ebrill 2023**

CADEIRYDD: